

**Dyddiad: Dydd Mercher 19 Mehefin 2002**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl: Adolygiad o'r Gwasanaethau ar gyfer Plant ag Anghenion Iechyd Arbennig**

## **Diben**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y dystiolaeth sydd wedi dod i'w law ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy'r cyflwyniad ar yr arolwg o lenyddiaeth. Comisiynwyd yr arolwg o lenyddiaeth gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru a'i gynnal gan yr Adran Iechyd Plant a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.

## **Cefndir**

2. Cylch gwaith yr adolygiad yw:

- i. Cynnal adolygiad i weld pa ofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol sydd i blant sydd ag anghenion iechyd arbennig, gan gynnwys mewn ysgolion a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
- ii. Cynnig argymhellion i wella'r gwasanaethau hynny fel bod plant sydd ag anghenion iechyd arbennig yn cael y driniaeth, y gofal a'r gwasanaethau cysylltiedig sydd eu hangen arnynt i ddatblygu i'w potensial llawn a byw bywydau mor annibynnol â phosibl.
- iii. Clustnodi'r arferion da rhyng-asiantaethol sy'n diwallu anghenion iechyd arbennig ac yn darparu gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol cydlyn sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf.
- iv. Paratoi adroddiad ar yr uchod i gyfarfod llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn Mehefin 2002.

*At ddiben yr adolygiad, 'plant ag anghenion iechyd arbennig' yw plant sydd â nam corfforol arnynt neu sydd â chyflyrau meddygol cymhleth neu gronig; neu sydd ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu ddysgu sy'n gysylltiedig â chyflwr meddygol canfyddedig.*

3. Mae'r adolygiad yn eang ei gwmpas ac yn ymdrin â phlant ag amrywiaeth eang o anghenion iechyd arbennig a'r gwasanaethau sy'n eu cynnal ac yn gofalu amdanynt. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, mudiadau gwirfoddol a gofaluwyr plant ag anghenion iechyd arbennig.

4. Cam cyntaf y Pwyllgor oedd cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig hydref diwethaf. Gofynnodd ynddo

am ymatebion i wyth agwedd ar wasanaeth a gofal. Y pwyntiau hyn hefyd oedd sylfaen y dystiolaeth lafar a'r arolwg o lenyddiaeth. Bu'r arolwg o lenyddiaeth yn edrych ar gyhoeddiadau ar gyfer saith grwp cleient gwahanol. Yn ogystal, bu aelodau yn ymweld â mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i blant ag anghenion iechyd arbennig a'u teuluoedd.

## **Y Dystiolaeth**

5. Darparwyd crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig i gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Ionawr (HSS-01-02(p2)). Amgaeir hefyd restr o'r unigolion, cyrff a mudiadau a roddodd dystiolaeth lafar.

6. Mae'r dystiolaeth o bob ffynhonnell yn dangos mai yr un yw gofidiau pawb. Fe'u rhestrir isod fel man cychwyn a ffocws trafodaeth y Pwyllgor, ond fe all fod materion eraill y carai aelodau eu trafod.

### **1. Adnabod a diagnosis anghenion iechyd arbennig.**

7. Mae rhieni ac ymarferwyr fel ei gilydd yn pwysleisio mor bwysig yw cael diagnosis buan ac ymyrryd yn gyflym. Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau croes ar yr argymhellion ar gadw gwyliadwriaeth ar blant a wnaed yn mhedwerydd argraffiad adroddiad drafft y cyd-weithgor o dan gadeiryddiaeth yr Athro David Hall, Llywydd y Coleg Pediatreg ac Iechyd Plant Brenhinol. Dywed yr adroddiad, "Health for All Children" y dylai fod yna raglen eang ynghyd â gwasanaethau ychwanegol i'r rheini sydd â'u hangen arnynt. Byddai hynny'n golygu bod yr ymwelydd iechyd, ar ôl y trydydd dôs o frechlin yn 4 mis oed, yn trafod natur adolygiadau pellach gyda rhieni/gofalwyr a'u cynnal yn ôl angen, yn hytrach nag yn ôl amserlen.

8. Mae gofyn rhoi sylw arbennig i deuluoedd mewn grwpiau lleiafrifol sydd wedi'u heithrio efallai o'r gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol.

### **2. Rhoi gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid.**

9. Mae rhieni a gofalwyr wedi pwysleisio ei bod yn bwysig rhoi manylion y diagnosis a'r prognosis o dan yr amodau iawn ac mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion y rhieni a'u gallu i ddeall ac ymdopi. Dylid ystyried hefyd allu'r plentyn ac unrhyw frodyr a chwiorydd i ddeall. Dylid rhoi'r cyfle i deuluoedd fynd i ffwrdd ac ystyried y wybodaeth ac i gael sesiwn dilynol neu gwrsela i drafod eu cwestiynau a'u gofidiau.

10. Dylid rhoi'r hyfforddiant priodol i'r rheini sy'n rhoi'r wybodaeth a dylai fod yna systemau i gadw'r wybodaeth yn gyfoes.

### **3. Cydlynnu'r gofal.**

11. Roedd y diffyg cydweithio rhwng asiantaethau gwahanol yn destun gofid mewn rhai ardaloedd, er y cafwyd tystiolaeth bod gwaith da yn cael ei wneud mewn ardaloedd eraill.

12. Yn ôl yr arolwg o lenyddiaeth a phrofiadau teuluoedd a mudiadau gwirfoddol, mae darparu gweithiwr allweddol / cydlynedd gofal yn gwneud lles i deuluoedd o ran cael gafael ar ofal iddynt a chynllunio gofal.

13. Mae iechyd geneuol yn aml yn cael ei ddiystyru a dylid sicrhau bod y Gwasanaeth Deintyddol cymunedol yn gysylltiedig â chynllunio gofal.

14. Mae'r symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn gallu bod yn brofiad trawmatig i bobl ifanc.

#### **4. Y gofal a'r driniaeth sydd ar gael.**

15. Gwnaeth llawer o'r rheini a roddodd tystiolaeth gyfeirio at ddiffyg gwasanaethau therapi a hyfforddiant, yn enwedig ym maes therapi llefaredd. Yn ôl yr arolwg o lenyddiaeth, nid oes fawr o dystiolaeth na gwerthuso o wasanaethau therapi. Mae'r modd y mae anghenion plant am therapi yn cael eu hasesu a'r rhan y gall rhieni a gofalwyr eraill neu gynorthwywyr ystafell ddsbarth ei chwarae i ddarparu rhaglen o therapi yn bwnc trafod ynddo'i hun.

#### **5. Helpu Teuluoedd a gofalwyr eraill**

16. Mae mudiadau gwirfoddol sy'n arbenigo mewn cyflyrau penodol yn rhoi cefnogaeth werthfawr i deuluoedd. Math arall o ofal gwerthfawr yw gofal seibiant. Mae o les i blant, rhieni a brodyr a chwiorydd. Fodd bynnag, tameidiog yw'r ddarpariaeth yng Nghymru a darperir llawer ohono gan y sector gwirfoddol. Ceir anhawster i gynnig gofal seibiant i blant ag anabledd corfforol sydd ag arnynt angen offer/trefniadau trafod arbennig ac i blant ag anghenion cymhleth.

#### **6. Offer ac anghenion gwasanaethau cymdeithasol eraill.**

17. Weithiau, os ceir arafwch wrth ddarparu offer, mae ambell i blentyn wedi tyfu'n rhy fawr iddo cyn ei gael. Hefyd, mae trwsio offer yn cymryd amser. Mae cadeiriau olwyn yn broblem arbennig gan fod yn rhaid eu haddasu ar gyfer pob cleient. Mae gofyn iddynt fod yn ysgafn er mwyn i blant allu symud yn gyflym ynddynt ac ymgorffori elfennau dylunio deniadol er mwyn cynnal delwedd y plentyn ymhlith ei gyfoedion.

18. Mae'r broses ar gyfer ceisio am offer yn gallu bod yn feichus o fiwrocraidaidd.

19. Mewn rhai ardaloedd, ceir problemau ynghylch pa asiantaeth sy'n gyfrifol am ddarparu offer, gan fod gan ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau lleol eu storfeydd offer eu hunain. Gall hyn ddrysu cleientiaid a arafu'r broses wrth iddynt ddadlu pwy ddylai dalu. Mewn llawer i ardal, ni cheir cyllidebau na threfniadau ar y cyd ar gyfer comisiynu a storio.

20. Mae hi'n gallu cymryd rhy hir o lawer i addasu tai ac mae disgwyl i rieni sy'n berchen ar eu tai gyfrannu gormod.

## **7. Plant ag anghenion addysgol arbennig.**

21. Gwerthfawrogwyd yr athroniaeth y tu ôl i'r ddadl dros roi plant ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion cyffredin, ond ceir problemau o hyd o ran darparu gwasanaethau oherwydd diffyg cyfleusterau, torri gwersi plant er mwyn rhoi triniaeth neu therapi a rhagfarn. Ceir problemau ymarferol hefyd, o ran trefnu bod therapyddion a nyrsys yn teithio i fwy ysgolion i drin llai o blant ym mhob un. Weithiau nid oes gan athrawon ddigon o wybodaeth am gyflwr meddygol y plentyn. Mae problemau'n codi wrth roi moddion a rhoi triniaethau ymyrrol.

## **8. Arfer da.**

22. Cafwyd tystiolaeth gan sawl corff a mudiad am eu harferion, yn enwedig ym meysydd cydweithio a chydgyllunio. Fodd bynnag, nid oes fawr o dystiolaeth os o gwbl sut mae arfer da yn cael ei werthuso a'i feincnodi.

23. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y dystiolaeth i benderfynu a yw'r gwasanaeth a ddarperir yn ddigon ac i argymhell unrhyw welliannau y dylid eu gwneud.